



Glandŵr
Cymru

The Canal & River Trust in Wales



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



BRIFF I YMGEISWYR: CYFLE I ARTIST PRESWYL YN FENIS A CHAERDYDD

Cyflwyniad

Rydym yn gwahodd artistiaid o'r DU ac yn rhyngwladol i gyflwyno cynigion byr mewn ymateb i'r briff hwn am gyfnod preswyl ar ddyfrffyrdd mewn dwy ddinas, Fenis yn yr Eidal a Chaerdydd yn y DU.

Mae'r cyfnod preswyl yn gyfle arbennig i artist profiadol ymchwilio a dyfeisio gwaith newydd mewn ymateb i'r rhwydwaith camlesi mewndirol hanesyddol y mae'r dinasoedd porthladd hyn wedi'u cysylltu â nhw.

Mae'r cyfle'n rhan o gyfres ehangach o gyfnodau preswyl i artistiaid a gafodd eu creu a'u datblygu ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Glandŵr Cymru a'r asiantaeth guradu Addo. Y nod yw cyfrannu at arwyddocâd diwylliannol camlesi yng Nghymru a'u perthnasedd i gymunedau lleol a diwylliant cyfoes Cymru. Gobaith arall y cyfnodau preswyl yw datblygu rolau artistiaid wrth iddynt animeiddio ac ail-ddehongli'r dyfrffyrdd.

Bydd yr artist llwyddiannus yn gysylltiedig â dau sefydliad celfyddydol arloesol yn y naill ddinas a'r llall: Bevilacqua La Masa, gofod celfyddydol blaenllaw yn Fenis, a Chanolfan Gelfyddydau Chapter, gofod diwylliannol blaenllaw yng Nghaerdydd.

O fis Mai i fis Tachwedd 2016, bydd yr artist yn datblygu syniadau mewn ymateb i'r dyfrffyrdd yn y ddwy ddinas Ewropeaidd hynod wahanol gydag etifeddiaeth dra gwahanol o ran dyfrffyrdd. Ni fydd disgwyl iddynt dreulio'r cyfnod cyfan yn teithio rhwng y ddwy ddinas, ond mae'r partneriaid comisiynu yn chwilio am ymrwymiad cadarn a chwilfrydedd dwfn i archwilio themâu cyffredin a gwahanol a awgrymir yn y briff hwn ac i ddatblygu gwaith ar gyfer arddangosfa yn y dyfodol.

Cefndir

Mae Glandŵr Cymru, wedi ymuno â Chyngor Celfyddydau Cymru i greu cyfres o gyfnodau preswyl i artistiaid ledled dyfrffyrdd Cymru dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r bartneriaeth hon yn tynnu sylw nid yn unig at y dreftadaeth ac arwyddocâd hanesyddol camlesi Cymru, ond hefyd yn dathlu eu perthnasedd cyfredol i gymunedau lleol a diwylliant cyfoes Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sut y gall celfyddydau cyfoes gyfrannu o'r newydd at warchod, animeiddio ac ail-ddehongli dyfrffyrdd Cymru.

Y lleoliadau

De Cymru - rhanbarth Caerdydd

Bydd yr artist yn ymchwilio i'r berthynas rhwng porthladdoedd dinesig De Cymru a'r dyfrffyrdd mewndirol yn y gorffennol a'r presennol. Yn nyddiau cynnar y chwyldro diwydiannol,

cynhyrchu haearn oedd prif ddiwydiant cymoedd y De. Ym 1794, agorwyd Camlas Morgannwg, oedd yn 25 milltir o hyd, rhwng Caerdydd a Merthyr Tudful i gludo cynhyrchion haearn i'r arfordir. Am bron i hanner can mlynedd y gamlas oedd y prif gyswllt trafniadaeth rhwng y ddwy dref. Yn ddiweddarach fe'i defnyddiwyd yn helaeth i gludo glo i Fae Caerdydd. Mae Camlas Morgannwg a'i lledgamlesi i'r Dociau wedi diflannu bron yn llwyr erbyn hyn, ond mae yna ddŵr mewn ambell ddarn yn y ddinas o hyd a gellir olrhain ei llwybr ar hyd ffyrdd newydd.

I'r dwyrain o Gaerdydd mae camlas drawiadol Mynwy ac Aberhonddu, a gwblhawyd ym 1812, yn dilyn Dyffryn gwledig y Wysg. Roedd cychod wedi'u tynnu gan geffylau'n cludo haearn, calch a glo o'r ardal - gan gynnwys yr hyn sydd bellach yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, gan gysylltu â phorthladd Casnewydd, i'r dwyrain o Gaerdydd. Ym 1880 daeth y gamlas i ddwylo'r Great Western Railway. O fewn 35 mlynedd, roedd cludo masnachol wedi dod i ben ar y dyfrffyrdd bron yn llwyr. Heddiw mae llawer o'r gamlas wedi'i hadfer yn fendigedig.

Partner celfyddydol yng Nghaerdydd

Mae Chapter yng Nghaerdydd, yn ofod diwylliannol ar gyfer celfyddydau amrywiol sy'n cyflwyno ac yn cynhyrchu celfyddyd weledol, perfformiadau a ffilmiau rhyngwladol. Mae'r ganolfan gelf yn cynnwys 35 o stiwdios artistiaid, dwy sinema, oriel, dwy theatr a bar caffi bywiog a gofod cymdeithasol sy'n fan gweithio a chyfarfod pwysig i gymuned artistig a chymuned ehangach Caerdydd. Chapter fydd y ganolfan artistig i'r artist gan gynnig cymorth ac arweiniad. Bydd yr artist yn ymweld â Chapter ddwywaith, a bydd y naill ymweliad a'r llall yn para 2-3 wythnos, rhwng mis Ebrill a mis Awst 2016. Disgwylir i'r artist gyflwyno gwaith tra bydd yn gweithio arno a chyflwyno sgwrs am y profiad preswyl, ond gellir datblygu canlyniadau'r cyfnod preswyl drwy drafod gyda'r tîm curadur.

Llety yng Nghymru

Bydd Chapter yn darparu stiwdio a llety preswyl yn ystod ymweliad yr artist â Chaerdydd. Ni fydd y llety preswyl ar y safle, ond bydd yn agos at Chapter.

Fenis

Roedd Gweriniaeth Fenis yn ddinas a phorthladd pwerus ac yn rym morwrol o bwys yn ystod yr Oesoedd Canol a'r Dadeni, ac yn fan crynhoi a chychwyn ar gyfer y Croesgadau a Brwydr Lepanto, yn ogystal â chanolfan fasnach (yn enwedig sidan, grawn, a sbeisys) a chelfyddyd o'r drydedd ganrif ar ddeg tan ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg.

Yr hyn sy'n llai adnabyddus yw hanes y dyfrffyrdd a'r camlesi sy'n amgylchynu ac yn bwydo Fenis o'r ardaloedd cyfagos yng ngogledd yr Eidal. Mae rhai o'r camlesi cudd hyn o bwysigrwydd hanesyddol aruthrol sy'n pontio canrifoedd lawer. Heddiw, mae yna gynlluniau uchelgeisiol i adfer y dyfrffyrdd mewndirol canoloesol ac o gyfnod y dadeni er mwyn agor dros 500 cilometr o ddyfrffyrdd parhaus ar gyfer cychod o Lyn Maggiore i Fenis drwy Milan.

Partner celfyddydol yn Fenis:

Bydd yr artist yn treulio tri mis yn Fenis yn y Bevilacqua La Masa rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016. Sefydlwyd Sefydliad y Bevilacqua La Masa ym 1898, yn fuan ar ôl Biennale

Fenis. Fe'i sefydlwyd gan Felicita Bevilacqua, gweddw'r Cadfridog La Masa, a adawodd ei phalas teuluol, Cà Pesaro, i'r sefydliad ar yr amod y dylid ei ddefnyddio fel lle ar gyfer diwylliant artistig yn y ddinas.

Mae'r Bevilacqua La Masa wedi dod yn fan cychwyn ar gyfer artistiaid ifanc megis Boccioni, Casorati, Semeghini, Gino Rossi a Arturo Martini. Yn ogystal mae'r Bevilacqua La Masa'n cynnal arddangosfeydd sy'n canolbwyntio ar artistiaid fel Jean-Michel Basquiat, Louise Bourgeois, Joseph Beuys, Milton Glaser, Shirin Neshat, Frida Kahlo, Sonia Delaunay, ac i'r beirniad Giuseppe Marchiori. Fe'i bwriadwyd fel lle i artistiaid yng nghymau cynnar eu gyrfa gynnal ymchwil artistig, ac mae Sefydliad y Bevilacqua La Masa yn dal i goleddu'r genhadaeth hon dros ganrif yn ddiweddarach.

Llety:

Bydd y Bevilacqua La Masa'n darparu llety yn Palazzo Carminati, gyda mynediad i'r rhyngwrwyd; cymorth gweinyddol a chymorth staff, gan gynnwys cyflwyno'r artist preswyl i gymuned gelfyddydol Fenis; ymweliadau stiwdio ac ymweliadau eraill; lle i gynnal gwaith ymchwil a chwrdd ag eraill; a chyfle i roi sgwrs neu gynnal digwyddiad. 12,000 Ewro yw gwerth y pecyn.

Amcanion y cyfnod preswyl Bydd yr artist yn adeiladu ar gysylltiadau presennol i brosiectau perthnasol lleol a rhanbarthol er mwyn cynorthwyo nod Glandŵr Cymru sef:-

- *Gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau a wasanaethir gan y camlesi hyn ac i staff Glandŵr Cymru drwy annog mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r dyfrffyrdd*
- *Codi proffil y dyfrffyrdd*
- *Gwneud camlesi ac afonydd Cymru'n fwy hygyrch trwy weithgarwch celfyddyd gyfoes a phrofiadau ymgysylltu o ansawdd uchel*
- *Meithrin arloesedd wrth adfywio a gwarchod y camlesi a'r afonydd a gwella amgylchedd y dyfrffyrdd*
- *Creu partneriaethau hirhoedlog, yn enwedig gyda sefydliadau diwylliannol yng nghyffiniau'r dyfrffyrdd*

Yn y tymor hirach rydym yn gobeithio y bydd Glandŵr Cymru, drwy weithio gydag artistiaid, yn ymgorffori arferion gwaith artistig yn ei strwythurau bob dydd, a'u gweld fel elfen bwysig a pherthnasol o'i berthynas â'r cyhoedd yn y dyfodol.

Amcanion ehangach y prosiect yw codi proffil Glandŵr Cymru, datblygu cysylltiadau rhwng grwpiau sydd eisoes yn bodoli a phartneriaid y prosiect, archwilio a datblygu ffyrdd y gall artistiaid gyfrannu at ddatblygiad y sefydliad a'i gyfleusterau.

Partneriaid

Bydd cynrychiolwyr o Glandŵr Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Addo yn gweithio gyda'r

Bevilacqua La Masa a Chapter i ffurfio Grŵp Llywio ar gyfer y prosiect. Bydd Addo'n gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng y grŵp a'r artist, gan gynnig cefnogaeth i'r artist. Bydd grwpiau a chymdeithasau lleol yn gweithio gyda'r grŵp llywio a'r artist i ddod o hyd i gyfranogwyr lleol yn ystod camau cychwynol y prosiect.

Canlyniadau

Mae canlyniadau materol y cyfnod preswyl yn agored ond gallant fod ar ffurf gweithiau celf dros dro wedi'u creu gyda mewnbwn gan gymunedau glannau'r dyfrffyrdd, defnyddwyr y camlesi, gwirfoddolwyr a staff. Disgwylir i'r artist gyflwyno gwaith wrth iddo'i gynhyrchu ac yn rhoi o leiaf ddwy sgwrs gyhoeddus am y profiad yn Fenis a Chaerdydd.

Trefnir arddangosfa fawr, yn cynnwys gwaith gan artistiaid pob un o'r saith cyfnod preswyl bwriedig, i'w gynnal mewn lleoliad neu oriel flaenllaw yng Nghymru ar ddiwedd y prosiect yn 2017. Bydd disgwyl i'r artist ddangos gwaith a gynhyrchwyd fel rhan o'r cyfnod preswyl hwn, neu o ganlyniad i themâu a archwiliwyd yn ystod y cyfnod preswyl, yn yr arddangosfa derfynol yn 2017.

Yr Artist

Bydd yr artist yn rhywun sydd â diddordeb mewn ymateb i dreftadaeth dyfrffyrdd De Cymru a Fenis a'i dyfrffyrdd cyfagos ar y tir mawr.

Mae'r cyfle hwn yn agored i artistiaid y DU ac artistiaid rhyngwladol.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos:

- Gwreiddioldeb creadigol a phroffesiynoldeb yn eu gwaith
- Y gallu a'r awydd i weithio law yn llaw â'r cyhoedd a phartneriaid eraill fel rhan o'u hymarfer creadigol
- Parodrwydd i goleddu bywyd a diwylliant yr ardal
- Dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth a'r pryderon a'r cyfleoedd sydd i'w cael yn sgil hanes, twristiaeth a gwaith adfer y dyfrffyrdd.
- Rhaid i'r artist fod yn ymwybodol o'r deddfau sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed a chydymffurfio â nhw, dylent ymgymryd â gwaith o'r fath fel rhan o'r cyfnod preswyl.
- Os yw'r artist yn cynhyrchu gweithiau celf neu'n creu gosodiadau celfyddydol, mae'n rhaid iddo feddu ar yswiriant indemniad cyfredol a phriodol sy'n berthnasol i'r artist yn bersonol ac i unrhyw wrthrych/au sydd i'w cynhyrchu.

Stiwdio

Darperir llety preswyl i'r artist yng Nghaerdydd a Fenis. Bydd lle ymchwil yn cael ei ddarparu gan Chapter yng Nghaerdydd a gan y Bevilacqua La Masa yn Fenis.

Talu

Bwrsariaeth: £7,500

Bydd yr artist a ddewisir yn derbyn bwrsariaeth mewn rhandaliadau i'w cytuno wrth ei benodi. Mae'r ffi'n cynnwys unrhyw gostau teithio, cynhaliaeth a deunyddiau. Bydd gofod preswyl ac ymchwil yn cael eu darparu yng Nghaerdydd a Fenis hefyd.

Sut i gyflwyno

Darparwch y canlynol:

Anfonwch at: tracy@addocreative.com erbyn 5pm BST ddydd Gwener 15 Ebrill 2016:

- Hyd at 10 delwedd ddigidol mewn dogfen PDF neu gyflwyniad Powerpoint, neu 'showreel' 10 munud ar y mwyaf). Dylai unrhyw waith gael ei rifo a dylai gynnwys, teitl, dyddiad, dimensiwn a'r cyfryngau;
- CV cyfredol;
- Llythyr cais byr sy'n amlinellu'n fras pam mae gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn a sut y mae'n berthnasol i'ch ymarfer;
- Dau lythyr o gefnogaeth.

Wrth anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), rhowch hyperddolenni i ffeiliau ar-lein neu DropBox sy'n cynnwys y ffeiliau. Ni chaiff gwybodaeth a gyflwynir mewn fformatau eraill ei derbyn.

Sylwch nad oes gofyn cyflwyno cynnig prosiect yn ystod y cam hwn gan ein bod yn rhagweld y bydd manylion y gweithgarwch sydd i'w wneud fel rhan o'r preswyl yn cael eu datblygu yn dilyn cyfnod o ryngweithio â'r ardal, y gymuned a budd-ddeiliaid allweddol.

Y Broses Ddethol:

Bydd panel o randdeiliaid allweddol yn creu rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld o blith y ceisiadau a ddaw i law.

Cynhelir cyfweiliadau yng Nghaerdydd ddydd Mercher 27 Ebrill 2016. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer cyfweiliad ar y dyddiad hwn. Bydd gwahoddiadau i gyfweiliad yn cael eu hanfon erbyn 20 Ebrill 2016. Bydd hyd at £150 yr artist ar gael i dalu costau teithio a chynhaliaeth a gaiff eu gwario yn sgil mynychu cyfweiliad. Gellir trefnu cyfweiliadau drwy Skype. Yn y cyfweiliad, bydd disgwyl i'r sawl sy'n cael eu cyfweld siarad yn fanylach am eu gwaith a'u prosesau gweithio a sut y byddant yn gweithio cyn ac yn ystod y cyfnod preswyl.

Gwybodaeth bellach: www.addocreative.com

Manylion cyswllt:

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen gwybodaeth bellach arnoch am y cyfle hwn, cysylltwch â: Tracy Simpson, Addo, 0789 0203218, tracy@addocreative.com